**Uned 2**

# Arwyddion Iechyd ac Afiechyd mewn Anifeiliaid Fferm

## Taflen Wybodaeth

**Beth yw rôl y ffermwr wrth reoli iechyd anifeiliaid fferm?**

Mae gan ffermwr da byw ddyletswydd **gyfreithiol** a moesol i ofalu am iechyd a lles anghenion yr anifeiliaid.

1. **Gofal Iechyd**

Mae cadw stoc yn iach yn golygu gwneud penderfyniadau rheoli cadarn a sgiliau ymarferol da. Mae pob ffermwr eisiau anifeiliaid hapus, bodlon, sy'n cael eu bwydo'n dda, yn rhydd rhag straen ac yn gynhyrchiol.

Dau gam a all fod o gymorth i gadw'r anifeiliaid yn iach yw:

- Rheolaeth ataliol
- Rheolaeth iachaol

Fel dywed yr hen ddywediad 'mae atal yn well na iachau'. Mae'n well atal cychwyn clefyd yn hytrach na delio â'r canlyniadau. Os yw atal wedi methu, yna'r sialens nesaf i'r ffermwr yw diagnosis effeithlon a thriniaeth.

**2. Gofal Lles**

Disgrifir prif angen anifail fel 'rhyddid'.

Mae 'Pum Rhyddid' lle mae'n rhaid i'r ffermwyr lynu wrthynt:

**1. Rhyddid rhag Newyn a Syched** - drwy gael dŵr ffres a chael diet i gadw'n llawn iechyd ac egni.

**2. Rhyddid rhag bod yn Anghyfforddus** - drwy ddarparu amgylchedd addas, yn cynnwys cysgod a lle cyfforddus i orwedd.

**3. Rhyddid rhag Poen, Anaf neu Afiechyd** - drwy atal, neu ddiagnosis a thriniaeth sydyn.

**4. Rhyddid i Ymddwyn yn Naturiol** - drwy ddarparu digon o le, cyfleusterau priodol a chwmni anifail o'r un math.

**5. Rhyddid rhag Ofn a Thrallod** - drwy sicrhau amgylchiadau a thriniaethau fydd yn osgoi dioddefaint meddyliol.

**Beth ydi Arwyddion Iechyd mewn Anifeiliaid Fferm?**

Dylai anifeiliaid, fel pobl, edrych fel petaent yn mwynhau bywyd!

Dyma rai pethau i edrych amdanynt:

| Anifeiliaid Iach | Anifeiliaid Sâl |
|---|---|
| Maen nhw'n cadw cysylltiad agos â'i gilydd er eu bod ar wasgar. Byddant yn | Ar wahân fel arfer, a dim yn rhedeg gyda'r ddiadell/gyr |

| | |
|---|---|
| rhedeg at ei gilydd i ffurfio grŵp. | |
| Gweithgaredd corfforol pendant. Fel arfer, byddant yn bwyta, cerdded, chwarae, twtio neu gnoi cil. Bob tro'n ymestyn ar ôl codi | Disymud a dangos dim diddordeb |
| Mae anifeiliaid fferm yn tueddu i fod yn farus os ydyn nhw'n iach, ac eisiau bwyd o hyd | Does gan anifeiliaid sâl fawr o ddim/dim archwaeth at fwyd |
| Mae'r patrwm ysgarthu'r un fath, ac mae ansawdd y tail yn cyd-fynd â'r math o fwyd. Does dim gwaed yn yr ysgarthion, ac mae'r wrin yn lliw golau | Mae dolur rhydd, neu ddiffyg tail ac wrin yn arwydd clir bod rhywbeth o'i le |
| Fel arfer, mae côt y fuwch yn sgleiniog ac mae ôl llyfu arni. Mae cnu'r ddafad yn dynn - nid yn fatiog. Dylai fod yn sbringar. | Mae côt di-sglein ar fuwch yn arwydd drwg. Os ydi dafad yn sâl, mae'r gwlân yn dod yn rhydd ac yn cwympo allan |
| Mae'r llygaid yn glir, yn ddisglair ac yn effro. Dylai socedau'r llygaid fod yn lliw pinc. | Mae llygaid anifeiliaid sâl wedi suddo ac yn bŵl. Nid yw'r amrannau'n ysmicio. Os ydi socedau'r llygaid yn lliw golau/gwyn - anaemia |
| Does dim rhedlif annormal o'r corff | Gall anifeiliaid sâl gael rhedlif o'r llygaid, ceg, trwyn, bogail, anws, llawes goch, tethi, clustiau neu'r pidyn |
| Mae anifeiliaid iach yn cerdded yn dda, mewn llinell syth<br>Maen nhw'n sefyll yn sgwâr | Mae anifeiliaid sâl yn cerdded yn stiff, yn simsanu neu'n cerdded mewn cylchoedd. Mae cymalau gwichlyd, wedi chwyddo, yn arwydd o afiechyd |
| Mae'r nodweddion metabolig (pwls, anadlu a churiad y galon) yn normal | Mae'r nodweddion metabolaidd yn uwch, yn is na'r normal, neu'n eratig |

**Pwysigrwydd Mesur Tymheredd Anifail**

Gellir defnyddio tymheredd anifail fferm i ddiagnosio problemau iechyd. Fel arfer, os ydi'r anifail wedi'i heintio gan bathogen (organeb sy'n achosi clefyd), mae newid yn nhymheredd y corff.
Anaml mae problemau treulio neu anhwylderau metabolig yn affeithio ar dymheredd yr anifail.

**Tymereddau Normal Anifeiliaid Fferm**

| Anifail | Tymheredd Gradd Ganradd | Cyfradd Anadlu Y funud | Cyfradd Pwls Y funud |
|---|---|---|---|
| Gwartheg | 38.7 | 12-20 | 45-50 |
| Defaid | 39.4 | 12-30 | 70-90 |
| Moch | 39.2 | 10-18 | 70-80 |
| Ceffylau | 37.5 | 8-12 | 36-42 |

**Nodyn**
Gall y tymereddau i gyd newid ychydig o fewn rhywogaeth, yn dibynnu ar y tywydd - ond dim ond 0.1 - 0.3 gradd.
Mae lloi ifanc, ŵyn, moch bach ac ebolion yn tueddu i gael tymereddau a graddfeydd pwls uwch.